



Ein cyf/Our ref JJ/247/20

2 Gorffennaf 2020

Annwyl gyfeillion,

Mae coronafirws wedi cael effaith sylweddol ar bob gwlad ledled y byd a Chymru. Yn ogystal â'r peryglon iechyd; mae swyddi mewn perygl; mae cyllid cyhoeddus mewn perygl; mae ein cymunedau bregus mewn perygl.

Bydd darparu ar gyfer adferiad o'r argyfwng iechyd cyhoeddus yn cynrychioli'r her fwyaf yr ydym wedi'i hwynebu fel Llywodraeth Ddatganoledig. Bydd y gwaith hanfodol yma yn effeithio pob agwedd o fywydau pobl Cymru a bydd yn hynod o bwysig i gwasanaethau cyhoeddus, ar gyfer yr economi a chymdeithas.

Nid oes amheuaeth ein bod yn wynebu heriau enfawr, digynsail. Wrth i ni blotio cwrs at adferiad ac ailadeiladu, bydd ein dull yn seiliedig ar yr un gwerthoedd - ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol - a bydd yn ymwreiddio ein rhwymedigaethau i'r rhai sy'n ein dilyn ochr yn ochr â'r rhai sy'n byw trwy Covid19, o dan y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae ein gwerthoedd yn parhau, ond bydd angen i ni fod yn ddi-ofn ac yn radical wrth gweithredu lens y realiti ôl-Covid newydd i'n polisiau sefydledig. Ni fydd nifer o'r pethau sydd wedi gweithio yn y gorffennol bellach yn addas i'r diben. Bydd angen i ni ddangos hyblygrwydd a dychymyg wrth werthuso ein dulliau cyfredol ac wrth ddatblygu rhai newydd. Dyna pam, yn ogystal â thynnu ar feddwl o fewn y Llywodraeth, rydym hefyd yn benderfynol i edrych y tu allan am her i'n ffyrdd sefydledig o feddwl ac am ysbrydoliaeth ffres.

Rydym yn ymestyn gwahoddiad i bobl yng Nghymru i anfon eu meddylion atom ar sut y dylwn gefnogi adferiad ac ailadeiladu ôl-Covid yn y dyfodol yng Nghymru. Mae gennym gyfeiriad e-bost pwrpasol -cymrueindyfodol@llyw.cymru - a hoffwn glywed eich meddylion ar sut y gallwn lunio ein dyfodol yng Nghymru. Hoffwn glywed gan y bobl yng Nghymru am yr hyn sy'n wirioneddol bwysig ac am lle y dylem ganolbwyntio ein hymdrechion adferiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Rydym yn gofyn i bobl anelu at wneud hynny erbyn diwedd mis Gorffennaf. Bydd hynny ymhell o ddiwedd y sgwrs genedlaethol hollbwysig yma, ond rydym am helpu i ganolbwyntio ymdrechion pobl wrth gyfrannu at ein dealltwriaeth a'n meddwl yn y camau cynnar hyn.

Yn Gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



Hannah Blythyn AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government